



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr**

**BWRDD CYNGHOROL DATBLYGU  
DIWYDIANNOL CYMRU  
(WIDAB)**

**Penodi 2 Aelod**

**Dyddiad cau: 12 Rhagfyr 2022**



**The Commissioner for  
Public Appointments**

# **BWRDD CYNGHOROL DATBLYGU DIWYDIANNOL CYMRU (WIDAB)**

**Cynnwys**

**Tudalen 3 - Gwneud Cais**

**Tudalen 5 - Atodiad A: Swyddogaeth Aelod**

**Tudalen 7 - Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau WIDAB**

**Tudalen 9 - Atodiad C: Y broses ddethol**

## **BWRDD CYNGHOROL DATBLYGU DIWYDIANNOL CYMRU (WIDAB)**

### **Gwneud cais**

Diolch am fynegi diddordeb yn y penodiad i fod yn Aelod o'r WIDAB. Yr hyn sy'n ganolog i swyddogaeth WIDAB yw rhoi cyngor i Weinidog yr Economi ar brosiectau unigol o dros £1 miliwn o'r cynlluniau perthnasol o fewn Cronfa Dyfodol yr Economi ac ar brydiau, gynlluniau eraill. Mae'r Atodiadau yn rhoi manylion rôl y Cadeirydd a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau WIDAB a'r broses ddethol.

I wneud cais ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma: [Penodiadau cyhoeddus | LLYW.CYMRU](#)

I wneud cais am y swydd hon, cliciwch ar swydd wag Aelod WIDAB ac yna cliciwch y botwm 'Gwneud Cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro cyntaf y gwnewch chi gais am swydd, bydd angen ichi llenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen ichi gofrestru, a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu hanfon, trwy'ch cyfrif.

Ar ôl cofrestru, bydd y ffurflen gais ar gael ichi ei llenwi. I wneud cais bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV i adran 'Rhesymau dros ymgeisio' y ffurflen gais ar-lein.

### **Datganiad Personol**

Eich datganiad personol yw'ch cyfle i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf a nodir ym manyleb y person. Chi sydd i benderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech anelu at ddarparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut y mae'ch gwybodaeth a'ch profiadau yn cyd-fynd â phob maen prawf, ac sy'n disgrifio'ch cyfraniad at gyflawni canlyniad penodol. Byddech yn helpu'r panel dethol hefyd pe baech yn nodi'n glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae rhoi paragraffau ar wahân ar gyfer pob maen prawf yn arfer gyffredin.

Ni ddylai'r datganiad personol fod yn hwy na dwy dudalen. Gallai'ch cais gael ei wrthod pe baech yn mynd dros y terfyn hwn.

### **CV**

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf a'ch dyddiadau yn y swydd honno. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

### **Geirda**

Rhowch ddau ganolwr (cyflogwr a phersonol) y cysylltir â hwy ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus yn unig.

### **Amserlen Fras**

Dyddiad cau:	12 Rhagfyr 2022
Llunio rhestr fer:	16 Ionawr 2023
Cyfweliadau:	27 Chwefror 2023

## **BWRDD CYNGHOROL DATBLYGU DIWYDIANNOL CYMRU (WIDAB)**

### **Datganiad am Amrywiaeth**

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai aelodau byrddau cyrff cyhoeddus adlewyrchu'r gymdeithas yng Nghymru – a chynnwys pobl o bob cefndir gyda profiad byw – i helpu inni ddeall anghenion pobl ac i wneud penderfyniadau gwell. Bydd bwrdd cynrychiadol yn helpu i ddatblygu ein gweledigaeth ar gyfer Cymru Mwy Cyfartal a Gwrth-hiliol. Dyma pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, siaradwyr Cymraeg, pobl Ddu, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

### **Hyderus o ran Anabledd**

Mae Llywodraeth Cymru yn yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, lle cydnabyddir bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gweithredu i analluogi pobl sydd â namau neu gyflyrau iechyd neu sy'n defnyddio laith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i gael gwared ar rwystrau fel bod pob aelod o staff yn gallu perfformio ar eu gorau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd ("nam corfforol neu feddyliol, sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gynnal gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd").

Rydym yn gwarantu cyfweld ag unrhyw un sy'n anabl os yw eu cais yn bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer y swydd. Drwy 'meini prawf gofynnol' rydym yn golygu bod yn rhaid ichi roi tystiolaeth inni yn eich cais sy'n dangos eich bod yn cyrraedd lefel y cymhwysedd ar gyfer y rôl yn gyffredinol ac unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiad a ddiffinnir fel rhai hanfodol.

Rydym wedi ymrwymo i gyflogaeth a datblygu gyrfa pobl anabl. Os hoffech gael cyfweiliad gwarantedig, cysylltwch â Leia Davies drwy e-bost [leia.davies038@gov.wales](mailto:leia.davies038@gov.wales) i roi gwybod iddyn nhw.

Os oes gennych nam neu gyflwr iechyd neu'n defnyddio laith Arwyddion Prydain ac mae angen i chi drafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, cysylltwch â Leia Davies fel uchod cyn gynted â phosibl a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion ac unrhyw gwestiynau sydd gennych.

### **Manylion Cyswllt:**

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:

Yr Uned Penodiadau Cyhoeddus  
[publicappointments@gov.wales](mailto:publicappointments@gov.wales)

Am fwy o wybodaeth am rôl y WIDAB a rôl yr Aelodau cysylltwch â [Leia Davies@llyw.cymru](mailto:Leia.Davies@llyw.cymru)

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch chi i wneud cais am y rôl hon, cysylltwch â [penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru](mailto:penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru).

Am ragor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru ewch i [Penodiadau cyhoeddus | LLYW.CYMRU](http://Penodiadau.cyhoeddus.LLYW.CYMRU)

## **Penodi Aelod o WIDAB**

### **Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person**

#### **Rôl a chyfrifoldebau**

Bydd disgwyl i aelodau'r Bwrdd ddadansoddi gwybodaeth fasnachol, dechnegol ac ariannol, ac asesu teilyngdod y prosiectau hyn a gwneud argymhellion i Weinidog yr Economi.

#### **Manyleb y Person**

Er mwyn cael eich ystyried, rhaid ichi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o'r meini prawf hanfodol.

#### **Meini Prawf Hanfodol**

- Dealltwriaeth gref o'r cyfleoedd economaidd rhanbarthol, bygythiadau a chryfderau yng ngwahanol ranbarthau Gogledd Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru, tra'n gwerthfawrogi y materion sy'n berthnasol i Gymru yn genedlaethol megis effeithiau gadael yr UE ac adferiad economaidd yn dilyn y pandemig byd-eang.
- Y gallu i ddadansoddi ac asesu gwybodaeth fasnachol, dechnegol ac ariannol (yn ysgrifenedig fel arfer) sy'n cael ei ddarparu i gefnogi ceisiadau grant a disgrifio prif gryfderau a gwendidau achosion a'r casgliadau a ddaw iddynt.
- Sgiliau cyfathrebu cadarn a hyder wrth gyflwyno safbwyntiau yn seiliedig ar brofiad penodol.
- Bod yn barod i wrando ac asesu'r cyfraniadau gan gydweithwyr ar y Bwrdd a swyddogion.
- Dealltwriaeth glir o faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth ac ymrwymiad iddynt
- Deall Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Nolan ac ymrwymo iddynt.

#### **Meini Prawf Dymunol**

Bydd angen i'r Bwrdd hefyd feddu ar aelodau sydd ag arbenigedd a phrofiad yn y meysydd canlynol;

- Twristiaeth a Bwyd
- Y Diwydiannau Creadigol
- TGCh, Technoleg Ariannol a Gwasanaethau Digidol
- Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch ac Adeiladu cyfoes
- Yr amgylchedd ac economi carbon isel

## BWRDD CYNGHOROL DATBLYGU DIWYDIANNOL CYMRU (WIDAB)

### Y Gymraeg

Mae sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol.

### Ffeithiau allweddol am y swydd

Lleoliad:	Cynhelir cyfarfodydd yn Swyddfeydd Llywodraeth Cymru yng Nghymru, mewn rhai amgylchiadau cynhelir y cyfarfodydd yn rhithwir.
Ymrwymiad Amser:	Un diwrnod y mis ar gyfartaledd - mwy os oes nifer fawr o achosion (Ar brydiau mae'n bosibl y cynhelir cyfarfodydd anarferol ychwanegol pan fydd ysgrifenyddiaeth WIDAB yn gofyn i aelodau'r bwrdd fod yn bresennol).
Hyd y penodiad:	3 blynedd
Tâl:	£198 y dydd ynghyd â chostau teithio a threuliau rhesymol eraill.

### Pwy sy'n gymwys i wneud cais?

Dylai ymgeiswyr hefyd nodi bod bod yn aelod o WIDAB yn swydd sy'n eich anghymhwyso rhag bod yn aelod o Senedd Cymru o dan Orchymyn y Senedd (Anghymhwyso) 2020.

[The Senedd Cymru \(Disqualification\) Order 2020 \(legislation.gov.uk\)](https://legislation.gov.uk)

### Gwrthdaro buddiannau

Bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Aelod o WIDAB, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'r rôl yn WIDAB.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweiliad. Os byddwch yn cael eich penodi, bydd disgwyl ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

### Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl ichi ddangos safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Gofynnir i bob ymgeisydd llwyddiannus gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus. Gallwch weld y ddogfen yn:

[Code of conduct for board members of public bodies - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk)

## **Rôl a chyfrifoldebau WIDAB**

### **Cefndir**

Wedi'i sefydlu'n wreiddiol o dan Ddeddf Asiantaeth Datblygu Cymru 1975, mae WIDAB yn rhoi cyngor i Weinidogion ac Uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru ar faterion sy'n gysylltiedig ag Economi Cymru ac yn eu cynorthwyo yn eu huchelgais i sbarduno twf cynaliadwy a chynhwysol ar draws rhanbarthau Cymru.

Mae Gweinidog yr Economi yn ceisio penodi dau aelod o'r Bwrdd.

### **Y Sefyllfa Statudol**

Sefydlwyd WIDAB yn wreiddiol o dan Adran 13 Deddf Datblygu Diwydiannol Cymru 1975 ("Deddf 1975") i roi cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol ar gymorth ariannol i'r Diwydiant ac roedd yr un adran yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol benodi aelodau gyda phrofiad a chapasiti penodol.

Roedd swyddogaethau a dyletswyddau yr Ysgrifennydd Gwladol mewn cysylltiad â WIDAB o dan Adran 13 Deddf 1975 wedi eu rhoi i Senedd Cymru drwy Erthygl 7 o, ac Atodlen 1 i, Orchymyn Diddymu Awdurdod Datblygu Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru) 2005 (O.S. 2005 / 3226 w. 238) ("Gorchymyn 2005"). Mae'r swyddogaethau hyn o ganlyniad wedi'u rhoi yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 I Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Gweinidog yr dros yr Economi sy'n gwneud argymhellion i'r Bwrdd yn arferol.

Er mai cynghori yw swyddogaeth y Bwrdd, os yw yn gwneud argymhellion i Weinidog yr Economi a bod y gweithredu yn groes i'r argymhelliad, gall y Bwrdd ofyn am i ddatganiad gael ei gyflwyno gerbron y Cynulliad ynghylch y rheswm dros y newid yn y penderfyniad.

Rhaid i gynigion o gymorth fod yn gydnaws â'r cytundebau cymwys sydd wedi'u cynnwys yn rheolau Sefydliad Masnach y Byd, Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU-UE, unrhyw Gytundeb Masnach Rydd sy'n cynnwys y DU, Protocol Gogledd Iwerddon ac unrhyw ddeddfwriaeth ddomestig berthnasol.

### **Rôl y Bwrdd**

Yr hyn sy'n ganolog i swyddogaeth WIDAB yw rhoi cyngor i Weinidog yr Economi ar brosiectau unigol o dros £1 miliwn o'r cynlluniau perthnasol o fewn Cronfa Dyfodol yr Economi a chynlluniau eraill o fewn cylch gwaith y Bwrdd. Y Cynlluniau statudol i'w cyflwyno i'r WIDAB yw:

- Cynllun Diogelu'r Amgylchedd
- Buddsoddi Cyfalaf a Chymorth ar gyfer Creu Swyddi
- Cronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth Cymru
- Cronfa Gynhyrchu Cymru Greadigol

## **BWRDD CYNGHOROL DATBLYGU DIWYDIANNOL CYMRU (WIDAB)**

Yr hyn fydd yn ganolog i swyddogaeth y Bwrdd fydd dealltwriaeth o'r Cynllun Gweithredu Economaidd sy'n ceisio hyrwyddo twf cynhwysol a sicrhau bod yr holl fusnesau sy'n derbyn cymorth gan Lywodraeth Cymru wedi ymrwymo i amcanion Llywodraeth Cymru.

Mae'r amcanion hyn yn llunio pileri y Contract Economaidd newydd, ac mae'n rhaid i fusnesau yng Nghymru gyflawni yn erbyn y delfrydau hyn. Sef;

- Cryfder ac Addasiadau Economaidd
- Eu hymrwymiad i Waith Teg
- Carbon Isel a'r Gallu i Wrthsefyll y Newid yn yr Hinsawdd
- Hybu Lles

Bydd yn ofynnol i unrhyw fusnes sy'n galw am gymorth ariannol uniongyrchol ddatblygu cynigion sy'n ymateb ac yn cyd-fynd ag o leiaf un o'r Galwadau i Weithredu, sydd wedi'u rhestru isod -

- Datgarboneiddio
- Arloesi, Entrepreneuriaeth a Phencadlys
- Allforio a Masnachu
- Swyddi o Ansawdd Da, Datblygu Sgiliau a Gwaith Teg
- Ymchwil a datblygu, Awtomeiddio a Digiddeiddio

Bydd dealltwriaeth dda o'r Cynllun Gweithredu Economaidd yn hanfodol er mwyn rhoi cyngor o safon uchel i Weinidog yr Economi.

Hefyd, deall sut mae prosiect yn bodloni ymrwymadau Rhaglen y Llywodraeth gan ganolbwyntio'n benodol ar adeiladu economi yn seiliedig ar egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol.



## **Y broses ddethol**

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i benderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl orau, a phwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'r datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Gofalwch felly eich bod yn darparu tystiolaeth sy'n dangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol.

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir cyn cael ei roi i'r panel sy'n llunio rhestr fer i'w ystyried. Dylech fod yn ymwybodol efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan mewn sefyllfa fel hon.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu yn ystod Ionawr 2023 pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad ym mis Chwefror 2023.

Caiff y panel dethol yn cael ei gadeirio gan Gadeirydd newydd WIDAB a bydd hefyd yn cynnwys Sioned Evans, Cyfarwyddwr Busnes a'r Rhanbarthau (Llywodraeth Cymru) a Robert Lloyd-Griffiths OBE, Cyfarwyddwr ICAEW Cymru, fel Aelod Panel Annibynnol o'r Panel.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf y mae'r panel yn credu sydd wedi dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodwyd yn adran manyleb y person orau fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Er hynny, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweliad, a'ch **bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol** ar gyfer y swydd, byddwch hefyd yn cael eich gwahodd i gyfweliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad ac os nad ydy dyddiad y cyfweliad wedi'i ddarparu eisoes yn y pecyn gwybodaeth, byddwn yn ceisio rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi o ddyddiad y cyfweliad. Os na fyddwch yn gallu dod i'r cyfweliad a drefnir, byddwn yn gwneud ein gorau i ail-drefnu. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd y cyfyngiadau amser yn yr amserlen ar gyfer penodi, a bydd yn dibynnu hefyd ar argeledd y panel dewis.

Bydd canolfan ymgeisio Llywodraeth Cymru yn anfon e-bost atoch i roi gwybod ichi a fyddwch wedi cael eich gwahodd i gyfweliad ai peidio. Rydym yn bwriadu cynnal y cyfweliadau yn Swyddfa Llywodraeth Cymru Merthyr Tudful, swyddfa Parc Cathays neu yn rhithwir gan ddefnyddio Microsoft Teams.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi ynghylch eich sgiliau a'ch profiad ac yn gofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn **bodloni'r meini prawf** a osodwyd ar gyfer y swydd ai peidio. Bydd astudiaeth achos a bydd gofyn ichi roi sylwadau arno a rhoi argymhelliad.

Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu sy'n addas i'w penodi yn cael eu hargymhell i'r Gweinidogion, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Caiff y Gweinidog ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os felly, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu eu cynrychiolydd enwebedig.

## **BWRDD CYNGHOROL DATBLYGU DIWYDIANNOL CYMRU (WIDAB)**

Bydd bwlch amser rhwng y cyfweiliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a gafodd eu cyfweild yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr yn eich penodi'n Aelod o WIDAB, a bydd y llythyr hwnnw hefyd yn cadarnhau o dan ba amodau y caiff y penodiad ei gynnig ichi.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn dilyn eich cyfweiliad, bydd canolfan ymgeisio Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod ichi. Rydym yn gwerthfawrogi bod angen llawer o amser ac ymdrech er mwyn ymgeisio am swyddi, ac felly mae rhoi adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth ar eich cyfweiliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

### **Ymholiadau**

Os oes gennych gwestiynau ynglŷn â'ch cais, cysylltwch â [penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru](mailto:penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru)

### **Os nad ydych yn hollol fodlon**

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, cysylltwch â'r Uned Penodiadau Cyhoeddus ar 03000 61 6095 / 03000 25 3762 neu anfon e-bost at [penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru](mailto:penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru)

Hefyd, gallwch ysgrifennu at: Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus G/08, 1 Horse Guards Road, Llundain SW1A 2HQ.